



Cynllun Pwnc Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Rhagfyr 2018

CYMRÆG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae "Tuag at 2020 a thu hwnt" yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg <http://bit.ly/2rtglxT>.

Mae'r Cynllun Pwnc Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Mae'r Cynllun hwn yn weithredol mewn cyfnod o newid gwleidyddol arwyddocaol ar sawl lefel. Yng Nghymru, mae'r trafod ynglŷn â natur y setliad datganoli a'i oblygiadau ar gyfer polisi, gweinyddiaeth gyhoeddus ac, yn gynyddol, lefelau trethiant, yn debygol o barhau dros y blynyddoedd nesaf. Ar yr un pryd, mae'n debygol y bydd y trafodaethau hyn yn digwydd fwyfwy yng nghyd-destun newidiadau ehangach i natur gwleidyddiaeth y Deyrnas Gyfunol, wrth i'r broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd godi cwestiynau dwys ynglŷn â natur cyfundrefn economaidd y wladwriaeth, ynghyd â seiliau ei chyfansoddiad tiriogaethol. Ymhellach, ar y llwyfan rhyngwladol, bydd galw am ymateb i ystod o heriau gwleidyddol byd-eang – rhai ohonynt yn gyfarwydd ac eraill yn newydd – er enghraifft, ymateb mewn modd cydlynol i newid hinsawdd, ymdrin ag ymlediad arfau niwclear neu ymateb mewn modd teg i symudiadau poblogaeth rhyngwladol. O ystyried y cyd-destun hwn, mae mawr angen am garfan o raddedigion sy'n meddu ar arbenigedd ym meysydd Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac sydd, felly, yn gymwys i ddehongli a thrafod gwahanol ddatblygiadau gwleidyddol a chymdeithasol cyfoes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Proses

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Mae traddodiad a hanes hir o addysgu ac astudio Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae datblygiadau mwy diweddar ym Mhrifysgol Caerdydd a galw cynyddol gan fyfyrwyr wedi arwain at gyfleoedd astudio newydd yn y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu'r ddarpariaeth, y graddedigion a'r arfer o astudio gwleidyddiaeth neu wleidyddiaeth ryngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollol allweddol i ddatblygiad sawl agwedd ar fywyd cyhoeddus Cymru dros y degawdau diwethaf, er enghraifft mewn meysydd megis newyddiaduraeth, cyfathrebu gwleidyddol ac ymgyrchu, gweinyddiaeth gyhoeddus a llywodraethiant. Yn ogystal, dylid cydnabod bod y ddwy adran sy'n rhan o'r cynllun hwn yn rhai sy'n meddu ar statws ymchwil uchel iawn. Bu i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2016 osod Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth yn 7^{fed} ac Ysgol y Gyfraith a

Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd yn 15^{fed} wrth sgorio safon allbwn ymchwil adrannau academaidd sy'n gweithio ym maes Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol. Golyga hyn bod y ddwy adran yn cael eu cydnabod ymhlith y goreuron yn eu maes trwy Brydain. Yn sgil y statws hwn, mae'r ddwy adran yn rhoi pwyslais mawr ar yr angen i'w holl aelodau staff fod yn ymchwilwyr gweithredol sy'n anelu at gyhoeddi ar y lefel uchaf un. Disgwylir hefyd iddynt fod yn ddiwyd wrth geisio am grantiau ymchwil gan gyrff allanol er mwyn cefnogi gwaith ymchwil pellach.

Bydd angen datblygu continiwm dysgu o Safon Uwch i'r brifysgol. Bydd angen parhau i ddatblygu adnoddau Cymraeg a pharhau i ddatblygu modiwlau sydd yn ymwneud â gwleidyddiaeth y tu hwnt i Gymru a Phrydain er mwyn denu diddordeb.

Dylid cynnal a datblygu'r amrediad o feysydd y mae modd eu hastudio fel rhan o fodiwlau cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau darpariaeth sy'n cwmpasu ystod ryngwladol o ddamcaniaethau, cysyniadau, systemau a sefydliadau gwleidyddol. Yn sgil y datblygu cyson a welwyd mewn perthynas â'r setliad datganoli Cymreig, y newidiadau pellgyrhaeddol sy'n nodweddu gwleidyddiaeth y Deyrnas Gyfunol heddiw ynghyd â pherthnasedd ystod o heriau gwleidyddol byd-eang megis ymateb i newid hinsawdd neu ymlediad arfau niwclear, dylai Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol fod yn feysydd astudio atyniadol i fyfyrwyr sydd am ddatblygu gyrfaoedd mewn meysydd megis polisi cyhoeddus, ymgyrchu/lobio neu newyddiaduraeth lle y mae galw am allu i ddeall a dehongli datblygiadau gwleidyddol a chymdeithasol cyfoes.

Yn ystod oes y cynllun, anelir at geisio sicrhau darpariaeth a fydd yn darparu profiad astudio o'r radd flaenaf i fyfyrwyr, ynghyd â gweithio i gryfhau seiliau a dilyniant i'r pwnc. O gyflawni hyn, y bwriad fydd meithrin cenhedlaeth arall o arbenigwyr sy'n meddu ar yr arbenigedd i drin a thrafod elfennau damcaniaethol a gweithredol meysydd Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Gwleidyddiaeth yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i faes Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Mae cefnogaeth a buddsoddiad y Coleg Cymraeg yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf wedi cyfrannu at gynnal a sefydlogi lefel o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth a oedd eisoes yn bur helaeth. Cynigir dau gynllun gradd penodol cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth a darperir 80 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyflwynwyd nifer o fodiwlau cyfrwng Cymraeg newydd i'r cwrs Gwleidyddiaeth yng Nghaerdydd.

Cafwyd buddsoddiad trwy'r Coleg Cymraeg mewn dwy swydd Gwleidyddiaeth newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac mewn Darlithyddiaeth Genedlaethol mewn Athroniaeth, wedi ei chartrefu ym Mhrifysgol Caerdydd, a fu'n cyfrannu at ddarpariaeth Athroniaeth Wleidyddol y ddwy brifysgol. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, datblygwyd nifer o fodiwlau newydd, gan gynnwys rhai ar wleidyddiaeth y Dwyrain Canol yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Erbyn hyn, mae'r cyntaf o'r ddwy swydd Cynllun Staffio ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi ei throsglwyddo i'r Brifysgol ac mae'r darlithydd yn parhau i addysgu'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Daw cyfnod cyllido'r ail swydd i ben yn 2019 a hyderir y caiff honno hefyd ei hymgorffori'n llawn gan y Brifysgol. Mae'r ddarlithyddiaeth Athroniaeth bellach wedi'i mabwysiadu gan Adran Athroniaeth Prifysgol Caerdydd, ac mae'r ddarpariaeth gydweithredol a gynigir i'r ddwy Adran Wleidyddiaeth yn parhau â chefnogaeth grant oddi wrth y Coleg.

Cefnogwyd yn ogystal dair doethuriaeth dros y blynyddoedd diwethaf drwy gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg. Ariannwyd gweithgareddau cydweithredol gan gynnwys gemau argyfwng i ddisgyblion chweched dosbarth ac i fyfyrwyr prifysgolion Cymru. Mae'r Coleg ar hyn o bryd yn ariannu e-lawlyfrau yn y pwnc a fydd yn addas ar gyfer disgyblion Safon Uwch a myfyrwyr Blwyddyn 1 yn y brifysgol. Ceir hefyd radd meistr MA Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n gymwys ar gyfer Ysgoloriaethau Meistr y Coleg a gradd MSc mewn 'Gwleidyddiaeth a Llywodraethant Cymru' ym Mhrifysgol Caerdydd sydd hefyd yn cynnwys elfennau wedi eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol oddi fewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a pha un a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. O ran y Cynllun Pwnc Gwleidyddiaeth, ystyrir bod y ddarpariaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd cenedlaethol ac yn anelu at gyrraedd y trothwy gwaelodol o safbwynt niferoedd myfyrwyr. Mae Prifysgol Caerdydd yn anelu at gyrraedd y meini prawf gwaelodol o safbwynt darpariaeth, niferoedd myfyrwyr a chapasiti staffio.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr¹
Prifysgol Aberystwyth	<p>O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar raglenni israddedig.</p> <p>O leiaf 60 credyd ar gael yn y cwrs MA Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r traethawd hir.</p> <p>Ceir gwasanaeth Tiwtor Personol yn y Gymraeg.</p>	<p>6 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg.</p> <p>6 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (sy'n cynnwys 1 aelod staff dan nawdd Cynllun Staffio'r Coleg) a chyfraniad 1 darlithydd Athroniaeth drwy drefniant cydweithredol.</p>	<p>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>24 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI3.</p>
Prifysgol Caerdydd	<p>O leiaf 40 credyd y flwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar raglenni israddedig.</p> <p>Cwrs MSc Gwleidyddiaeth a Llywodraethant Cymru yn cynnwys elfennau wedi eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r traethawd hir.</p> <p>Ceir gwasanaeth Tiwtor Personol yn y Gymraeg.</p>	<p>3 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg.</p> <p>2 aelod o staff llawn amser yn cyfrannu at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfraniad 1 darlithydd Athroniaeth drwy drefniant cydweithredol.</p>	<p>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>32 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI3.</p>

¹ Gwybodaeth yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

Profiad Myfyrwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Dangosodd gwaith ymchwil y FfRhA (<i>Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu</i>) a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017 bod myfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy tebygol o gael swyddi gwell ac yn llai tebygol o adael eu cyrsiau'n gynnar o gymharu â myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau uniaith Saesneg.² • Mae myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn manteisio ar ddosbarthiadau llai ac felly'n elwa ar berthynas agosach â'u darlithwyr. • Cynhaliwyd gweithgareddau cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr Gwleidyddiaeth yn ystod cyfnod y cynllun pwnc blaenorol. Roedd rhain yn cynnwys Gemau Gwleidyddiaeth a oedd hefyd yn agored i fyfyrwyr pynciau eraill megis Hanes a Daearyddiaeth. Anelir at barhau â'r digwyddiadau hyn er mwyn rhoi bri a gwerth ychwanegol ar ddilyn modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg. • Mae Adran Athroniaeth Prifysgol Caerdydd yn darparu modiwlau cydweithredol gyda chefnogaeth y Coleg sy'n cynnwys detholiad o fodiwlau Athroniaeth Wleidyddol sydd ar gael i amryw o brifysgolion, gan roi dewis helaethach o ddarpariaeth i fyfyrwyr. • Anogir darlithwyr yn y maes i adnabod yr angen am ragor o adnoddau agored yn y Gymraeg i'w gosod ar y Porth i fyfyrwyr a chynnig syniadau ar gyfer cynhyrchu adnoddau newydd. • Mae myfyrwyr Gwleidyddiaeth Prifysgol Aberystwyth wedi elwa o brofiadau gwaith yn Senedd Cymru, Senedd Prydain a Senedd Ewrop. Disgwylir gweld hyn yn parhau ac edrychir ar ffyrdd i gryfhau profiadau gwaith y myfyrwyr a chydweithio ar draws disgyblaethau yn ôl yr angen. • O ystyried llwybr gyrfa nifer o fyfyrwyr Gwleidyddiaeth i feysydd megis Newyddiaduraeth, Polisi a Chysylltiadau Cyhoeddus, edrychir ar ffyrdd o gefnogi a datblygu hyn (e.e. mae Prifysgol Aberystwyth wedi datblygu modiwl 'Y tu ôl i'r Penawdau' sy'n cynnwys cyfraniadau gan newyddiadurwyr gwadd ac unigolion sy'n gweithio ym maes cyfathrebu gwleidyddol). • Edrychir hefyd ar ffyrdd o gryfhau cefnogaeth i fyfyrwyr llai hyderus eu Cymraeg i ddefnyddio ac elwa ar ddarpariaeth Gymraeg.
Darlithwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Coleg wedi cyfrannu at gynyddu capasiti staffio ym maes Gwleidyddiaeth ym mhrifysgolion Aberystwyth ac yng Nghaerdydd (Athroniaeth). • Mae angen sicrhau bod yr amrywiaeth o fodiwlau a'r ddarpariaeth eang yn parhau yn y ddau leoliad.

² <http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/267779-myfyrwyr-cyrsiau-cymraeg-yn-cael-swyddi-gwell>

	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen camau pendant er mwyn sicrhau bod myfyrwyr israddedig yn mynd yn eu blaenau i fod yn fyfyrwyr ôl-radd er mwyn sicrhau dyfodol academiaidd y pwnc. • Bydd y prifysgolion yn targedu myfyrwyr Cymraeg y tu allan i Gymru er mwyn dilyn cyrsiau ôl-radd yn y brifysgol.
Cwricwlwm	<ul style="list-style-type: none"> • Cynigir rhychwant eang o fodiwlau i fyfyrwyr eu hastudio, gan gynnwys modiwlau ar wleidyddiaeth Cymru a gwleidyddiaeth ryngwladol. • Gellid edrych ar ffyrdd o ddod â gwerth a defnydd ychwanegol i'r ddarpariaeth drwy, er enghraifft, gydweithio â chyrtsiau Newyddiaduraeth a Chyfryngau. • Mae cyfleoedd i rannu modiwlau Gwleidyddiaeth â phynciau eraill megis Hanes, Athroniaeth, Daearyddiaeth a'r Gymraeg. • Bydd cyfle i edrych ar ffyrdd o gyfuno gyrfa ym maes addysg fel rhan o'r ddarpariaeth er mwyn ceisio datblygu'r pwnc fel dewis Lefel A i ragor o ysgolion. • Mae modiwlau Gwleidyddiaeth yn gwneud defnydd o gyfraniadau gan ymarferwyr yn y maes. Bydd yr arfer da hwn yn parhau.
Canlyniadau Myfyrwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Mae canlyniadau'r myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr eraill o fewn eu hadrannau. Gwelir hyn drwy ganlyniadau gradd ynghyd â'r nifer o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ennill gwobrau am y myfyrwyr gorau/traethodau hir gorau.
Adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> • Bu'r Coleg Cymraeg yn gyfrifol am ariannu nifer o adnoddau ar y Porth sydd o ddefnydd i fyfyrwyr Gwleidyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ailgyhoeddi pamffledi athroniaeth wleidyddol J. R. Jones a chyfrolau gwleidyddol cyfres 'Y Meddwl Modern' ar athronwyr megis Karl Marx. Hefyd, ceir erthyglau gwreiddiol ar wleidyddiaeth yn <i>Gwerddon</i>. • Bydd hefyd, maes o law, stôr o raglenni o ddiddordeb gwleidyddol yn cael eu llwytho yn dilyn cydweithio rhwng y Coleg Cymraeg ac S4C. • Mae'r Coleg yn buddsoddi mewn prosiect i gynhyrchu dau e-lawlyfr dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth – <i>Cysyniadau Gwleidyddol Allweddol a Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol</i> – a fydd yn addas i fyfyrwyr Blwyddyn 1 a disgyblion Safon Uwch.

	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen adnabod bylchau am adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar faes Gwleidyddiaeth: gall y rhain gynnwys adargraffiadau, cyflwyniadau byw ynghyd â chyhoeddiadau newydd. • Dylid sicrhau bod ysgolion a cholegau addysg bellach Cymru yn ymwybodol o'r deunydd sydd ar gael. Gwneir hyn drwy ddatblygu perthynas sydd eisoes yn bodoli â'r colegau Addysg Bellach, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru a thrwy waith hyrwyddo uniongyrchol. Gwneir hyn er mwyn cryfhau llwybr dilyniant y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddir darlun ac argymhellion clir a phwysig iawn ar gyflogadwyedd myfyrwyr Gwleidyddiaeth mewn adroddiad gan Dr Elin Royles, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth: <i>Adroddiad ar sgiliau perthnasol i'r gweithle a chyflogadwyedd ym maes gwleidyddiaeth yng Nghymru, gyda sylw penodol i sgiliau cyfrwng Cymraeg</i> (2015).³ • Tra bod yr adroddiad yn dangos bod bri i dderbyn gradd mewn Gwleidyddiaeth ac opsiynau am swyddi da amrywiol, nodir pwysigrwydd datblygu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu clir a chywir, llythrennedd cyfrifiadurol a phrofiad gwaith ymysg y myfyrwyr. • Fel y dengys yn yr adroddiad, mae llwybr cyflogadwyedd myfyrwyr Gwleidyddiaeth yn arwain nifer at feysydd megis newyddiaduraeth, polisi, cysylltiadau cyhoeddus, y Trydydd Sector, grwpiau pwysu ac ymgyrchu a llywodraethiant ar wahanol lefelau (lleol, cenedlaethol a gwladwriaethol).
Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen sicrhau nad yw'r pwnc yn colli tir i bynciau eraill tebyg nac i brifysgolion y tu allan i Gymru. Bydd y Panel yn parhau i holi barn myfyrwyr; sicrhau bod gwedd Gymraeg i unrhyw ddatblygiad newydd o fewn darpariaeth y prifysgolion yn lleol. • Mae angen sicrhau bod y myfyrwyr hynny sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn astudio'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen edrych ar arfer da o gofrestru diofyn a chefnogaeth iaith i fyfyrwyr. • Mae angen sicrhau llwybr dilyniant clir i astudiaethau ôl-raddedig, gan efallai dargedu myfyrwyr sydd wedi dilyn cwrs israddedig y tu allan i Gymru. • O safbwynt buddsoddiad gan y Coleg, cefnogwyd y pwnc ymhellach drwy ddyfarnu tair Ysgoloriaeth Ymchwil dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn cefnogi doethuriaethau yn benodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn ychwanegol at ddoethuriaethau sy'n cael eu hariannu drwy ffynonellau eraill ac

³ <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=2409~4p~QczyumJx>

	yn gyfraniad at y gwaith o sicrhau bod rhagor o fyfyrwyr Gwleidyddiaeth yn gwneud ymchwil er lles datblygiad y pwnc a'i gynaliadwyedd tymor hir.
--	--

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
1. Darpariaeth	<p>Cynnig ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn yn Aberystwyth a 40 credyd y flwyddyn yng Nghaerdydd.</p> <p>Parhau i gynnig darpariaeth ôl-radd cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth a Chaerdydd a goruchwyliaeth ymchwil cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth a Chaerdydd.</p>	<p>Cynnig ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym Mhrifysgol Aberystwyth a 40 credyd ym Mhrifysgol Caerdydd.</p> <p>Parhau i gynnig modiwlau sy'n cynnwys trawstoriad o feysydd ar draws y gwahanol brifysgolion.</p> <p>Prif-ffrydio elfen profiad gwaith fel rhan o'r ddarpariaeth Gymraeg.</p> <p>Adnabod bylchau mewn astudiaethau gwleidyddiaeth yn y Gymraeg.</p> <p>Anelu am gais llwyddiannus i fyfyrwr PhD mewn Gwleidyddiaeth bob yn ail flwyddyn.</p>	<p>Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn yn Aberystwyth a 60 credyd ym mhob blwyddyn yng Nghaerdydd.</p> <p>Amrywiaeth o fodiwlau ar feysydd tramor ar gael yn y Gymraeg.</p> <p>Dau fyfyrwr yn ymgymryd â PhD mewn Gwleidyddiaeth yn ystod cyfnod y Cynllun Pwnc hwn.</p>
2. Myfyrwyr			

	30 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3.	35 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3	40 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws BI1–BI3
3. Datblygu capasiti	O leiaf un myfyriwr PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Gwleidyddiaeth bob yn ail flwyddyn.	O leiaf un myfyriwr PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Gwleidyddiaeth bob yn ail flwyddyn.	O leiaf un myfyriwr PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Gwleidyddiaeth bob yn ail flwyddyn.
4. Dilyniant a chydweithio ag ysgolion	<p>Drwy gyswllt personol a digwyddiadau penodol, dwysáu'r cyswllt ag ysgolion a cholegau Addysg Bellach sy'n addysgu Gwleidyddiaeth a phynciau cysylltiedig, megis Hanes.</p> <p>Ceisio sefydlu fframwaith ffurfiol rhwng y pwnc (trwy'r Coleg Cymraeg neu ar lefel prifysgol) â swyddogion o fewn Cyd-bwyllgor Addysg Cymru er mwyn datblygu'r pwnc ac adnoddau y gellid eu rhannu.</p> <p>Rhannu'r e-lawlyfrau a gyhoeddir eleni ag ysgolion a cholegau Addysg Bellach perthnasol.</p>	<p>Cynnal digwyddiad Gwleidyddiaeth blynyddol e.e. gemau argyfwng, cynadleddau, sesiynau blasu ac adolygu i ddisgyblion ysgol / colegau Addysg Bellach ac athrawon.</p> <p>Sefydlu fframwaith sefydliadol rhwng addysgwyr prifysgol, athrawon a darlithwyr colegau Addysg Bellach a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru.</p> <p>Adnoddau eraill wedi eu hadnabod sy'n gallu pontio dysgu'r pwnc rhwng Safon Uwch a lefel prifysgol.</p>	<p>Digwyddiadau blynyddol ar gyfer ysgolion/colegau Addysg Bellach.</p> <p>Adnoddau Gwleidyddiaeth yn y Gymraeg ar gyfer Safon Uwch wedi eu cynhyrchu.</p>
5. Adnoddau	Cyhoeddi'r e-lawlyfrau.	<p>Datblygu rhagor o adnoddau Gwleidyddiaeth ar gyfer disgyblion Lefel A (cydweithio gyda CBAC)</p> <p>Adnabod y bylchau am adnoddau newydd ym maes Gwleidyddiaeth gan gynnwys o bosib ailgyhoeddi</p>	<p>Lansio adnodd Gwleidyddiaeth ar gyfer disgyblion Lefel A.</p> <p>Cyhoeddi'r adnoddau newydd mewn Gwleidyddiaeth.</p>

		llawlyfrau allweddol sydd allan o brint.	
--	--	--	--

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
Prifysgol Aberystwyth	Myfyrwyr yn astudio 40 credyd	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 8 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Nifer Darlithwyr	6 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	6 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	6 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygu'r ddarpariaeth ôl-radd.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygu modiwlau sy'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg i fod yn 100% drwy gyfrwng y Gymraeg. Cryfhau elfen alwedigaethol i'r cwrs.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygu modiwlau sy'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg i fod yn 100% drwy gyfrwng y Gymraeg. Adnoddau, lle bo'n briodol e.e. e-lyfrau, cyflwyniadau

				ar y Porth, ar gael i'w rhannu â myfyrwyr Lefel A a'r cyhoedd.
Prifysgol Caerdydd	Myfyrwyr yn astudio 40 credyd	O leiaf 4 myfyriwr yn astudio rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Nifer Darlithwyr	2 aelod o staff yn cyfrannu at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	2 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	2 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygu cwrs ôl-radd Gradd Meistr.	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cwrs Meistr ar gael. Datblygu modiwl cynhenid i'r brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Creu adnoddau sy'n pontio sefyllfa gyfreithiol a chyfansoddiadol Cymru i'w rhannu ar y Porth.	O leiaf 60 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Myfyrwyr yn dilyn cwrs Meistr.